

Fforwm 50+ Ceredigion 50+ Forum

Cofnodion

Dydd Llun 8 Medi 2014
Siambr y Cyngor, Penmorfa

1. Presennol:

Aberaeron:	Denise Hicks, Adrian Thomas, Malcolm Sumner
Aberteifi:	Dr Carol Byrne Jones, Ken Rathbone
Aberystwyth:	Megan Jones, Anne Ellin
Llandysul:	Roger Couch
Tregaron:	Bill Messer, Cheryl Bulman

Yn cynorthwyo:

Cyng. Catherine Hughes	Cadeirydd ac Aelod Cabinet
Gweneira Raw-Rees	Strategaeth Pobl Hŷn
Geoff Davies	Cyfranogi 50+

Ymddiheuriadau:

Tregaron:	Mari Morgan
Llandysul:	John Davies

2. Dogfennau a ddosbarthwyd yn y cyfarfod

- Cylch Gorchwyl a Phrotocolau Cyfarfodydd Fforwm 50+ Ceredigion
- Holiadur a gwybodaeth ar doriadau i wasanaethau'r Cyngor Sir
- *Effective Engagement with Local Authorities* – Comisiynydd Pobl Hŷn

3. Cyflwyniad: Dyfodol Gwasanaethau Iechyd yng Ngheredigion gan Gill Davies, Cyfarwyddwr a Chomisiynydd Hywel Dda ar gyfer Ceredigion

Gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol i ddatblygu model gwasanaeth integredig, sy'n seiliedig yn ardaloedd y Gogledd a'r De, gan gynnwys nyrsio, gwasanaethau cymdeithasol a therapyddion. Mae toriadau yn berthnasol i'r holl bartneriaid, felly mae defnydd gwell o adnoddau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn angenrheidiol - ac i osgoi dyblygu. Mae llawer wedi cael ei wneud ac mae'n cael ei roi ar waith. Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar ddatblygu Tîm Adnoddau Cymunedol y De a fydd yn weithredol ar 1 Hydref.

Mae'r ddarpariaeth yn canolbwyntio ar wasanaethau i'r henoed. Ar 14 Gorffennaf cafodd Nyrsio Cymunedol ei gyflwyno yn Ne'r sir a mae'r ystod oed yn eang 14 – 101. Y nod yw tynnu timau at ei gilydd ac i ddarparu gofal gan ddefnyddio'r bobl fwyaf priodol. Mae'r Storfa Offer ar y Cyd yn Felinfach yn cefnogi'r broses hon a gall offer cael ei ddarparu o fewn oriau - sy'n hanfodol wrth gefnogi gofal lliniarol sy'n cael ei ddarparu o fewn y gymuned. Gellir cyflenwi cyfarpar o fewn y dydd fel rhan o'r ymateb brys.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae cleifion yn colli eu hannibyniaeth o fewn ysbyty ac yn colli hyder. Mae hefyd yn lle peryglus. Anelir at drefniadau rhyddhau yn cael eu darparu mewn modd amserol gyda phhecyn gofal. Y nod yw darparu gwrthfotigau, cathetr, rheoli poen ac ati yn y cartref. Mae angen i ni gael y model yn y de yn iawn yn gyntaf gyda chynlluniau gofal ac adolygiadau aml-ddisgyblaethol. Dylai adnoddau cyd-fynd gyda nifer y cleifion na ddylent fod yn yr ysbyty. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol o fewn yr ysbyty i sicrhau rhyddhau amserol a rheoli unrhyw Oedi wrth Drosglwyddo Gofal. Mae asesiadau ar gyfer gofal iechyd parhaus yn cael eu gwneud. Mae'r rhan fwyaf o'r targedau yn cael eu cyflawni ond mae copaon ee gall Bronglais fynd o lefel 1 i lefel 4 (y mwyaf aciwt) yn gyflym iawn.

Rhaid i nyrsys newydd ddysgu monitro'r cleifion sy'n feddygol ffit ar y wardiau. Bydd ffocws ar atal er mwyn rhwystro rheoli argyfwng. Mae Therapi Galwedigaethol a darparu ffisiotherapi yn her, ond bydd cyllid drwy'r Gronfa Gofal Canolraddol yn cael ei ddefnyddio i ail-lunio gwasanaethau. Arian tymor byr ydyw serch hynny. Mae drifft y staff mwy arbenigol i siroedd eraill (yn enwedig Caerfyrddin) yn broblem. Mae targedau oedi ambiwlans yn cael eu hystyried.

Rydym yn aros i'r Gweinidog adrodd yn ôl ar astudiaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae angen cysylltiad gwell gyda Gwynedd o ran Bronglais.

Cynlluniau cyfalaf: modelau canolfannau iechyd integredig Cylch Caron ac

Aberteifi - yr achos busnes wedi mynd i Lywodraeth Cymru (LIC).

Mae meddygon teulu yn allweddol ond mae recriwtio yn her. Mae angen datblygu modelau gwasanaeth i ddenu meddygon teulu newydd. Maent wedi cael cyfarfodydd clwstwr yn y Gogledd a'r De i edrych ar fodelau gwasanaeth a'u blaenoriaethau o ran y boblogaeth.

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol yn ymgais i ddwyn ynghyd wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau diagnostig a gweithio gyda grwpiau penodol o feddygon teulu i weld beth yw eu blaenoriaethau, ee proffil oedran ac ati

Ychwanegodd Gill Davies y byddai'n hapus i ddod yn ôl gyda rhagor o fanylion am y Timau Adnoddau Cymunedol

Cwestiynau

- **Amseroedd Teithio ar gyfer nyrsys yn rhwystr. Hefyd materion iechyd a diogelwch gweithwyr unigol (AT).**

Mae yna fanteision ac anfanteision i'r nyrsys. Prif fantais y model cymunedol yw lefel y boddhad – mae llai o salwch mewn cymunedau.

Mae yna brotocolau gweithio Unigol ac asesiadau risg. Mae staff hefyd yn logio mewn er mwyn i'w cydweithwyr cael gwybod eu bod allan. Ond mae derbyniad ffôn yn broblem mewn mannau. Mae'n wir hefyd fod y staff yn mynd allan mewn parau yn aml. Fel rhan o'r tîm integredig gellid cael staff o wasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn mynd allan gyda'i gilydd.

Cyfyngir y teithio. Mae systemau gweithio o bell yn cael eu defnyddio gan leihau yr angen i fynychu cyfarfodydd. Mae system gofnodi electronig yn cael ei defnyddio sydd hefyd yn elfen o gynllunio a darparu gofal. Mae gwasanaethau yn y gymuned yn arbed teithio.

- **Amserau aros ar gyfer ymyriadau llawfeddygol yw'r prif gŵyn ac yn annerbyniol. Mae'r aros am driniaethau angenrheidiol a syml o fewn y gwasanaethau cymunedol yn ymddangos i fod yn cynyddu.**

Atgyfeiriadau ffisiotherapi ar gyfer cymhorthion cerdded - 5-6 mis o amser aros arferol. Hefyd yn digwydd mewn ardaloedd eraill. Pigiadau steroid - 2-3 mis o aros. Orthoteg tîm wedi'i leoli yn Ysbyty Glangwili - gwn 3 o bobl sydd wedi gorfod aros am 5-6 mis. Hir yw'r aros i rywun mewn poen difrifol a mae'n cyfrannu at anabledd yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Pam bod gennym yr amseroedd aros? Nid yw hyn yn rhoi hyder yn y gwasanaeth iechyd. (BM).

Mae angen cyfathrebu gwell i helpu pobl i gael mynediad at wasanaethau. Bydd cyflwyno timau integredig yn helpu.

- **Ble mae De Ceredigion yn gorffen? (MJ)**

Mae ardal y De o Aberaeron i lawr. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ehangu ar draws Ceredigion.

- **Gofal lliniarol - beth am y gwasanaeth gwarchod a'r llanw ffurflenni ac ati? (MJ)**

Cytunaf gyda gwerth y gwasanaeth gwarchod. Mae gan Hywel Dda gontract mawr gyda Marie Curie a bydd elfennau eraill yn cael eu hychwanegu yn fuan

- **£ 60,000 wedi'i ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i Ffagl Gobaith ar ôl i'r gwasanaeth ddod i ben. Ble mae'n cael ei wario? (MJ)**

Bydd yr arian yn mynd i mewn i ofal lliniarol.

GWEITHREDU: GD i ddarparu manylion.

- **Pwy sy'n penderfynu pa offer sy'n cael ei ddarparu gan y storfa offer? Byddai (CB)**

Mae rhai offer yn ataliol. Mae protocolau ynghylch mynediad. Nyrs Kay Morgan a Rheolwr y Storfa Offer Ywain ap Dylan sy'n penderfynu.

- **Cyfathrebu: mae diffyg amlwg o wybodaeth pan yn cofrestru'n anabl. Mae tri o bobl gwahanol yn cynnig 3 asesiad gwahanol - mae angen siop un stop. Mae llawer o bobl angen cymorth gyda dod o hyd i help. Mae hyn yn ddiffyg. (CB)**

Mae un pwynt mynediad at wasanaethau yn cael ei ddatblygu i ddarparu gwybodaeth.

Gosodwyd ffeiliau *Cysylltiadau Defnyddiol ar gyfer Pobl hŷn*, a ddatblygwyd gan Strategaeth Pobl Hŷn Ceredigion, mewn meddygfeydd, llyfrgelloedd a swyddfeydd Age Cymru Ceredigion a'r Cyngor Sir.

GWEITHREDU: aelodau 50 + i edrych os yw'r ffeil ar gael yn eu meddygfa lleol.

- **Trafodwyd ysbyty Aberteifi 15 mlynedd yn ôl. Yn awr, mae'r ysbyty yn cael ei rhedeg i lawr. Pryder am feddygfeydd yn disodli gwasanaethau ysbyty yn enwedig mewn achosion trawma - strôc, trawiad ar y galon a damweiniau car. Rwy'n gwybod bod ymatebwyr cyntaf a pharafeddygon, ond mae'n dal i fod yn daith awr i gael triniaeth. Cymerais glaf oedd wedi cael strôc i uned Damweiniau ac Achosion Brys Glangwili yn y car o Gastell Newydd Emlyn a gymerodd 30 munud (byddai wedi bod yn 50**

munud o Aberteifi). Cefais gymorth yn llwyddiannus, ond beth sy'n mynd i gael ei wneud? Mae gwelyau strôc aciwt yr ysbyty cyffredinol awr i ffwrdd. (KR)

Mae angen trafnidiaeth effeithiol ar gyfer ymateb gan nad ydym yn delio gyda'r math hwn o achos mewn ysbytai bach. Bydd y ganolfan adnoddau yn arloesol gyda chlinigau cleifion allanol ac ati

Pryd? (KR)

Bydd Yn dibynnu ar yr amserlen a benodir gan Llywodraeth Cymru.

Cymerwyd welyau o Aberteifi ddwy flynedd yn ôl (KR).

Cylch Caron yr un fath. Mae'n rhaid i ni atgoffa Carl Sergeant bod bywyd rhwng yr M4 a'r A55. (CH)

Aberteifi bydd yn cael eu hadeiladu yn gyntaf.

Mae Tregaron tua 1 awr o Bronglais (BM).

- **Fferyllfeydd: roedd gwasanaethau tu allan i'r oriau arferol yn cael eu hystyried. Unrhyw newyddion? Bydd angen talu am y gwasanaeth. Agweddau yn y gorffennol wedi bod yn siomedig ac heb gynnig unrhyw dâl (KR)**

GWEITHREDU: Gill Davies i ymchwilio

- **Pa ganran o offer y storfa sy'n cael ei ailgylchu? (AE)**

Mae'r holl offer yn cael ei gofnodi. Pan ddychwelir offer caiff ei ailwampio a'i archwilio. Pan na fyddant yn addas bellach bydd y rhannau hynny sy'n werth eu cadw yn cael eu cadw.

GWEITHREDU: Gweneira i holi rheolwr y Storfa Offer

- **Pwy sy'n gosod y gwahanol dargedau? A pha mor addas ydyn nhw? Mae'r holl beth yn dod yn ymarfer ar bapur yn hytrach na gwneud yr hyn sydd ei angen. (CBJ)**

Gosodir y targedau gan Lywodraeth Cymru sy'n monitro perfformiad ee mae un ar gyfer strôc, un ar gyfer trosglwyddo ambiwlans yn A&E, atgyfeiriad am driniaeth ar gyfer y rhai sydd angen llawdriniaeth ac ati. Mae amrywiaeth o dargedau ar gyfer y gwahanol gyflyrau.

Mae llawer iawn o bethau yn cael eu hystyried ac mae'n bwysig i ddysgu.

Mae'r broses hefyd yn cefnogi cynllunio ee o amgylch argyfyngau gaeaf.

- **Mae ardaloedd gwledig yn cael problemau penodol ee person 85 mlwydd oed yn byw mewn lle anghysbell, yn dioddef o ddementia ac yn cysgu am 20 awr y dydd. Mae'r ferch yn byw ym Manceinion. Roedd yn**

gymwys i gael help bedair gwaith y dydd, ond nid oes unrhyw ofalwyr ar gael (CBJ)

GWEITHREDU: CH i ymchwilio i'r achos.

- **Mae Bronglais mor bwysig, ond yn cael ei rhedeg i lawr. Mae claf, a oedd wedi bod mewn coma ers mis Ionawr, wedi cael eu trosglwyddo o Gaerdydd i Fronglais a roedd y gofal a ddarparwyd yn ardderchog. (DH)**
Cynhelir cyfarfod i gefnogi cadw gwasanaethau Bronglais am 7pm Dydd Gwener 12 Medi yn ysgol Penweddig.

- **Yng Nghei Newydd mae ysgrifenyddion meddygol a derbynyddion yn cynnig cymorth a gwybodaeth i gleifion. Mae cleifion yn ffonio a gofyn am berson penodol y maent yn ei h/adnabod. Fodd bynnag, mewn profedigaeth mae y gwŷr yn aml yn dioddef problemau oherwydd nad ydynt erioed wedi gofod delio gyda materion tebyg. A yw'r timau integredig yn gynaliadwy? (RC)**

Rhagwelir diffyg o £1m yng nghyllideb gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn gweithio ar y cyd yn rhanbarthol. Yn fewnol, mae'r gwasanaeth darparu gofal wedi cael eu drosglwyddo i'r sector preifat (CH)

Gallwn weithio'n fwy effeithiol gyda'n gilydd a dangos gwelliannau yn gyflym. Mae galluogi annibyniaeth yn allweddol ond mae unigrwydd yn broblem felly mae angen gwella gwydnwch cymunedau. (GD)

- **Mae canran uchel (70%) o bobl yn ardal Pennant dros 50 oed, ond mae ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n digwydd gyda'r gwasanaeth iechyd. Mae'r wasg yn argraffu storïau negyddol yn unig. (MS)**

Mae'r strategaeth wedi bod yn aneglur ers ychydig o flynyddoedd, ond bydd manteision enfawr i ddatblygiad gwasanaethau cymunedol. Mae Cadeirydd newydd Hywel Dda, Bernie Rees yn awyddus i ymgysylltu â staff a'r cyhoedd a bydd yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus yng Ngheredigion. Mae ofn pobl am golli gwasanaethau yn fwy na'r sefyllfa wirioneddol. Ni fyddwn yn colli Bronglais oherwydd ei leoliad a'r galwadau arno, ond nid yw'n realistig i wneud popeth yn Bronglais.

Chris Martin wedi datgan bod Bronglais yr ysbyty mwyaf diogel o ran cau.

4. Trafod toriadau i wasanaethau y Cyngor Sir

Mae'r rhan fwyaf o aelodau eisoes wedi ymateb i'r ymgynghoriad yn electronig. Roedd rhai cwestiynau:

- **Beth mae 'partneriaethau' yn ei olygu? Pa fath o bartneriaethau?**
Er enghraifft, mae Cyngorau Cymuned yn cynnwys gwirfoddolwyr nad

ydynt yn gallu ymdopi â'r holl waith papur. Os ydych yn defnyddio gwirfoddolwyr beth yw lefel yr archwilio ac atebolrwydd? A oes hyfforddiant? Beth yw'r safon o allu? Yn Beulah, er enghraifft nid oes unrhyw gynghorwyr yn fenywod. A mae cyd-optio yn edrych fel ffordd o gael cynghorwyr 'drwy'r drws cefn' fel petai. (CBJ)

Mae ymgynghoriad yn digwydd ar hyn o bryd o ran Cynghorau Tref a Chymuned a'u rôl yn y dyfodol.

Mae'n anodd cael gafael ar wybodaeth am gynghorwyr cymuned a phwy ydyn nhw.

Maent i fod i gael gwefan, ond nid yw llawer ohonynt yn weithredol / yn gyfredol.

Mae angen i'r wybodaeth fod yn hygyrch a dylai gwahanol ddulliau gael eu defnyddio i ddarparu gwybodaeth, ee rhestr o gynghorwyr a manylion cyswllt ar hysbysfyrddau cymunedol (os yw ar gael), neu mewn lleoliadau eraill ac mewn papurau lleol ac ati

- **Mae defnyddio cwmnïau preifat i ddarparu gwasanaethau yn broblemus gan eu bod fel arfer yn awyddus i wneud elw er budd cyfranddalwyr ac ati. Mae cydbwysedd rhwng gwneud elw a chynnal ansawdd y ddarpariaeth yn anodd fel yr ydym wedi gweld mewn cartrefi gofal mewn mannau eraill ac wrth ddelio â grwpiau sy'n agored i niwed . Mae'n aml yn arwain at wasanaeth gwaeth am yr un arian neu weithiau mwy o arian. Mae angen gofal wrth benderfynu pa wasanaethau sydd i'w datganoli. (BM)**

Mae cwmnïau preifat yn defnyddio contractau dim oriau. Byddai'n well defnyddio grŵp cymunedol.

- **Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi pobl i brynu eu gwasanaethau cymorth eu hunain. A yw hynny wedi bod yn broffidiol ac yn fantais i'r Cyngor Sir ? Mae angen rhannu y pethau da. (ChB)**
GWEITHREDU: Nodi astudiaethau achos a pha wybodaeth sydd ar gael?

5. Adroddiad 21 Gorffennaf 2014

Materion yn codi:

- **Cynhwysiant digidol:** Mae'n beth cenedliadol - ni all llawer o bobl hŷn ddefnyddio cyfrifiaduron. Rydym mewn cyfnod trosiannol, ond mae'n rhaid i ni wneud cymaint ag y gallwn i ddatblygu sgiliau cyfrifiadurol y gymuned gyfan.

Mae llawer yn awyddus i ddysgu defnyddio cyfrifiadur i gyfathrebu ee person 82 mlwydd oed yn gallu siarad gyda'i mab yn Awstralia.

Mae angen hyfforddiant sylfaenol syml.

Dylai fod cyfrifiaduron mewn siopau a neuaddau eglwys / pentref.

Asiantaethau amrywiol yn darparu hyfforddiant mewn faniau ee Llyfrgell / Cantref.

- **Partneriaeth Pobl Hŷn Ceredigion (COPP):** mae angen cynrychiolydd o Fforwm 50+ Ceredigion
GWEITHREDU: ystyried hyn pan fo cyflenwad llawn o gynrychiolwyr
- **Mae cynllun ar gael sy'n helpu pobl newydd integreiddio i'r gymuned**
GWEITHREDU: CBJ i ddarparu rhagor o wybodaeth.

6. Cylch Gorchwyl

Dim newidiadau wedi cael eu cynnig

7. Materion o'r ardaloedd

- Mae angen trefnu cyhoeddusrwydd i'r Fforwm a'i aelodaeth
GWEITHREDU: datblygu Datganiad i'r wasg.
- Aberteifi: tyllau ffordd yn broblem mewn ardal o'r dref lle mae pobl hŷn yn byw
- Aberystwyth: rampiau anabl yn rhy serth

8. Unrhyw fusnes arall

- **Ffair 50+ Fair:** 1-6pm 1 Hydref yng Nghanolfan Gymunedol Morlan Aberystwyth
GWEITHREDU: Gweneira i anfon gwybodaeth yn electronig

- **Cynrychiolaeth Fforwm 50+ Ceredigion ar Fwrdd Rhaglen Gofalwyr** y dair sir: enwebwyd Cheryl Bulman
- **Age Cymru Ceredigion:** te a choffi ar fore dydd Mawrth yn siop EE, Y Stryd Fawr, Aberystwyth i roi cymorth gyda defnyddio ffonau symudol ac ati

9. Agenda y cyfarfod nesaf - 8 Rhagfyr 2014

- Cludiant
- 1.30pm Dydd Llun 8 Rhagfyr 2014
- Siambr y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron

Cyfarfod agored Mis Mawrth: cynhadledd Dydd Gwyl Dewi – **Un Llais Cymru**

Gweneira Raw-Rees, Cydlynnydd Strategaeth Pobl Hŷn Ceredigion:
gweneira.raw-rees@ceredigion.gov.uk 01545 574019 / 07968 694632